



ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

**Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint
o 31^{ain} Awst 2016 gyda disgyblion yn
trosglwyddo i ysgolion gerllaw**

EBRILL 2016

Os hoffech gael copi caled o'r adroddiad hwn, anfonwch e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk gan nodi eich enw a chyfeiriad post. Nodwch hefyd a ydych am dderbyn y ddogfen yn y Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith.

Cyngor Sir y Fflint – Addysg ac Ieuenctid

Adroddiad Gwrthwynebu

Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint o 31^{ain} Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion gerllaw

Pwrpas

Cyhoeddir yr adroddiad yn unol â gofynion adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dyma grynodedb o'r gwrthwynebiadau statudol, a elwir hefyd yn "yr Adroddiad Gwrthwynebu".

Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol a chyhoeddi adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynnig drwy hysbysiad statudol am 28 diwrnod rhwng 29^{ain} Ionawr 2016 a 26^{ain} Chwefror 2016.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan Cyngor Sir y Fflint a'i osod ger prif fynedfa Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint. Derbyniodd pob ysgol a effeithir gan y cynnig gopiâu electronig o'r hysbysiad ynghyd â manylion am sut i gael copiâu caled o'r hysbysiad.

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd 42 gwrthwynebiad mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint o 31^{ain} Awst 2016 a throsglwyddo disgyblion i ysgolion gerllaw.

Derbyniwyd yr ohebiaeth yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar sawl ffurf gan gynnwys:


18 (42.86%) neges e-bost,
24 (57.14%) llythyr ac

O blith y 42 gwrthwynebiad a dderbyniwyd, nid oedd cyfeiriad ar 2 o'r gwrthwynebiadau a lofnodwyd.

Ym mha ardaloedd y mae'r gwrthwynebwyr yn byw?

Y Fflint	19
Mynydd y Fflint	12
Brynford	3
Oakenholt	2
Treffynnon	2
Pantymwyn	1
Alltami	1
Anhysbys	2
CYFANSWM	42

Ym mha ardaloedd y mae'r gwrthwynebwyr yn byw?



■ Flint ■ Flint Mountain ■ Brynford ■ Oakenholt ■ Holywell ■ Alltami ■ Pantymwyn ■ Unknown

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn ar gael drwy gysylltiad e-bost ac fe'i cyhoeddir hefyd yn electronig ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion

Os hoffech dderbyn copi caled (papur) o'r ddogfen hon, anfonwch neges e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk, ysgrifennwch at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu cysylltwch â'r tîm ar 01352 704134/704015.

	Pwynt a Godwyd	Ymateb y Cyngor	Nifer yr ymatebion ysgrifenedig a gododd y	% yr Ymatebion a gododd y pwynt hwn
1	<p>Cryfderau'r ysgol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn niferoedd disgyblion • Dosbarthiadau bach • Mae disgyblion yn cymysgu'n dda gyda'i gilydd • Awyrgylch teuluol • Cynnydd yn nifer y disgyblion • Clybiau/tripiau llwyddiannus • Adroddiad Estyn da • Safonau Addysg • Plant hapus • Llawer o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol • Staff ac athrawon da • Ysgol anhygoel 	<p>Nodwyd ymatebion cadarnhaol yr ymgylgoreion ynglŷn ag Ysgol Maes Edwin.</p> <p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni, gofawyr ac athrawon, yn awr ac yn y gorffennol, gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol fel rhan o straeon eu bywydau eu hunain. Mae'r Cyngor yn wynebu her i gydbwyso sensitifrwydd teimladau'r gymuned ar un llaw, a'r angen i ddarparu addysg o ansawdd uchel y gellir ei chynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau yn y dyfodol sydd er budd gorau disgyblion a myfyrwyr.</p>	36	86%

2	<p>Tynnwyd Dewis y Rhieni oddi arnynt, neu mae'r Dewis yn y broses o gael ei dynnu oddi arnynt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Symudodd rhieni/gofalwyr eu plant o ysgol arall gerllaw • Dewisais ysgol fach ar gyfer fy mhlentyn 	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o ffactorau yn penderfynu ble y bydd rhieni/gofalwyr yn anfon eu plentyn/plant.</p> <p>Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru a bydd yn rhoi ystyriaeth i ddewis y rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i ddarparu addysg effeithiol a'r defnydd effeithlon o adnoddau addysg. Wrth ystyried ceisiadau, bydd y Cyngor yn dilyn darpariaethau'r Cod Derbyn i Ysgolion sy'n nodi y dylai awdurdodau derbyn dderbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol ac anaml y bydd modd profi anfantais yn sail ar gyfer gwrthod disgybl ychwanegol os bydd y nifer yn dal o dan y rhif derbyn.</p>	33	79%
---	---	--	----	-----

3	<p>Dogfennau a'r Broses Ymgynghori</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ddogfen yn unochrog • Nid yw'n ystyried datblygiadau tai • Mae'r data yn anghywir • Achosodd y broses straen a thrallod • Wedi ei dargedu'n annheg • Pobl sy'n gwneud penderfyniadau • Prif ysgogwyr • Nid yw'n hawdd deall system raddio ysgolion Llywodraeth Cymru • Mae disgyblion wedi gadael oherwydd yr ymgynghoriad 	<p>Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, ddydd Mercher, 21^{ain} Hydref 2015 gan ddod i ben ddydd Mercher, 2^{il} Rhagfyr 2015. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data diweddaraf a wiriwyd ar adeg llunio'r dogfennau ymgynghori:</p> <ul style="list-style-type: none"> •Daw gwybodaeth am niferoedd disgyblion ysgol a gwybodaeth fanylach am ddisgyblion (er enghraifft, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Saesneg fel Iaith Ychwanegol a Chamau Gweithredu a Chamau Gweithredu ychwanegol/datganiadau yr ysgol) o gofnodion ystadegol yr ysgol ei hun (Medi neu Ionawr) •Daw data Estyn o'r arolygiad diweddaraf a gynhaliwyd yn yr ysgol. Bydd amseriad yr arolygiadau yn dibynnu ar gylch arolygu Estyn ei hun. •Mae data categoriedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gofnodion yr ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar wefan Llywodraeth Cymru ar adeg llunio'r ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei ddata cenedlaethol bob blwyddyn. 	33	79%
---	--	--	----	-----

<p>Dogfennau a'r Broses Ymgynghori (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Caiff data GwE (y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) ei fwydo i system gategoreiddio genedlaethol Llywodraeth Cymru. •Caiff ffurflenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru eu gwirio gan benaethiaid ysgolion, maent yn rhoi Capasiti'r ysgol a nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn. •Caiff nifer y lleoedd gwag eu cofnodi gan Lywodraeth Cymru; mae'r Cyngor yn rhoi'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn; maent hefyd yn seiliedig ar gofnodion swyddogol yr ysgol. •Daw gwybodaeth am enedigaethau fesul ardal o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) •Caiff amcanestyniadau disgyblion eu cysoni â methodoleg Cyngorau cyfagos yng Ngogledd Cymru. •Mae gwybodaeth am ddatblygiadau tai yn seiliedig ar geisiadau gwirioneddol am tai a ddarparwyd gan Swyddogion Cynllunio Cyngor Sir y Fflint. •Caiff niferoedd y disgyblion posibl a gynhrychir yn sgil datblygiadau tai newydd eu cyfrifo gan ddefnyddio fformiwla Cyngor sy'n bartner (CBS Conwy) sy'n seilio'r fformiwla ar gofnodion y cyfrifiad diweddaraf. •Daw'r cymarebau disgybl-athro o'r ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd am ysgolion (http://mylocalschool.wales.gov.uk), a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a gaiff eu diweddarau bob blwyddyn. •Daw Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a Phynciau Craidd o'r ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd am ysgolion, (http://mylocalschool.wales.gov.uk), a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a gaiff eu diweddarau bob blwyddyn. 		
--	---	--	--

<p>Dogfennau a'r Broses Ymgynghori (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Daw'r wybodaeth am gyflwr adeiladau'r ysgol gan gwmni allanol sy'n cymharu cyflwr adeiladu'r ysgol â'r 'Bwletin Adeiladu' ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd. •Daw'r wybodaeth am y oedi wrth wneud gwaith cynnal gan ymgynghorwyr annibynnol. Cynhelir Arolygon o Gyflwr yr Eiddo bob 5 mlynedd. <p>Mae'r Codau Blaenoriaeth (diffiniad) fel a ganlyn:-</p> <p>Blaenoriaeth 1: Angen gwneud gwaith brys cyn pen 1 blwyddyn. Blaenoriaeth 2: Angen gwneud gwaith hanfodol cyn pen 2 flynedd. Blaenoriaeth 3: Angen gwneud gwaith 'dymunol' (tybiedig) cyn pen 3-5 mlynedd. Blaenoriaeth 4: Angen gwneud gwaith hirdymor (tybiedig) y tu allan i'r cyfnod (Cylch) 5 mlynedd.</p> <p>Mae'r elfen Cyfanswm 1 – 3 yn diffinio buddsoddiad ariannol pum mlynedd ac mae elfen 4 yn diffinio buddsoddiad ariannol chwech – ddeng mlynedd.</p> <p>Caiff y gwaith unigol ei gostio gan yr Ymgynghorydd ac mae'n cynnwys gwaith cychwynnol, llafur, offer a deunyddiau ac ati. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar y gwasanaeth gwybodaeth am gost adeiladu cyfredol a ddarperir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sef prif ddarparwr gwybodaeth am gostau a phrisiau yn y maes adeiladu a chynnal. Ar hyn o bryd, mae'r costau hyn (Cyfraddau Unedau) wedi'u cynnwys ym meddalwedd yr arolwg o gyflwr ar ffurf ffigwr rhagosodedig a gaiff ei newid/diweddaru yn ôl yr angen gan yr Ymgynghorwr.</p>		
--	--	--	--

<p>Dogfennau a'r Broses Ymgynghori (parhad)</p>	<p>Nid yw manylion costau'r gyllideb yn cynnwys TAW, cânt eu diweddarau'n flynyddol (gan ddefnyddio indecsau chwyddiant) a'u hadolygu ar ôl cwblhau'r gwaith.</p> <ul style="list-style-type: none"> •Daw gwybodaeth am addasrwydd ysgolion o'r arolygon Addasrwydd a gynhaliwyd yn annibynnol yn unol â chanllawiau Rheoli Asedau yr Adran Addysg (DfE) ac fe'i hadolygwyd gan swyddogion Cyngor Sir y Fflint a'i diwygio os cwblhawyd gwaith yn yr ysgolion ar ôl yr arolwg cychwynnol. •Caiff gwaith cyllidebol ysgolion ei wneud gan ddefnyddio fformiwla a gytunwyd yn unol â fforwm gyllideb yr Ysgol. Daw'r data am y gost fesul disgybl o adran 52, datganiad cyllideb y Cyngor. •Darparwyd y pellteroedd teithio rhwng safleoedd yr ysgolion gan system fapio Route Finder 3.41 Cyngor Sir y Fflint •Caiff costau cludiant eu darparu gan uned gludiant integredig y Cyngor sy'n gweinyddu contractau cludiant o'r cartref i'r ysgol. <p>Mae'r broses Ymgynghori yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir y gall y broses sy'n ymwneud â newid sefydliadol ysgolion darfu ar ddisgyblion, staff a chymuned yr ysgol.</p> <p>Cyflwynwyd y cynnig ar sail y meini prawf a bennwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:</p>		
--	--	--	--

	<p>Dogfennau a'r Broses Ymgynghori (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Lleoedd gwag heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd – ym mis Ionawr 2015 (CYBLD) roedd gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, 66 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd gwag yn 13.16%. O fis Medi 2015 mae gan yr ysgol 55 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd gwag yn 27.63% •Meini prawf adnoddau yn lleihau (h.y. ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion nad ydynt o'r gymuned leol a/neu niferoedd bach o fewn y gymuned yn codi pryder ynghylch cynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol) – nid yw 83.63% o ddisgyblion Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, yn mynd i'w hysgol leol; • Meini prawf ysgol fach – Mae poblogaeth a chapasiti Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn is na'r dynodiad cenedlaethol ar gyfer ysgol fach, a hefyd nid yw'r niferoedd yn yr ysgol yn bodloni gofynion modelau ysgolion cynradd fel y'u nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, ac • Ar hyn o bryd (Gorffennaf 2015), mae Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yng nghategori 4 Llywodraeth Cymru, ar raddfa o 1 – 4, gyda 4 ar y lefel isaf o ran safonau addysg. 		
--	--	---	--	--

4	<p>Lles emosiynol y plant (sut y bydd y newid yn effeithio ar fy mhlentyn)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae disgyblion eisoes wedi trosglwyddo o ysgolion eraill • Bwlio • Ddim yn gallu cael lle mewn ysgolion eraill gerllaw gan eu bod yn llawn • Amseroedd teithio hwy i'r ysgol • Ddim eisiau mynd i ysgolion mwy • Colli ffrindiau • Ni fyddant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt • Ystafelloedd dosbarth gorllawn 	<p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac emosiynol. Mae'r Cyngor yn wynebu her wrth gydbwysu sensitifrwydd teimladau'r gymuned ar un llaw, a'r angen i ddarparu addysg o ansawdd uchel y gellir ei chynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er budd gorau disgyblion a myfyrwyr. Wrth gynnig newid trefniadaeth ysgol cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu ac Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, yn cau byddai'n arwain at newidiadau i'r disgyblion presennol, megis :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amseroedd teithio byrrach i ddisgyblion sy'n byw yn ardal y Fflint • Taith ychydig yn hirach i lai na 10 disgybl sy'n byw yn ardal Mynydd y Fflint • Gwisg ysgol newydd • Athrawon a staff cymorth newydd • Amgylchedd dysgu newydd • Efallai yr effeithir ar grwpiau o ffrindiau, ond gellir gwneud ffrindiau newydd. 	31	74%
---	--	---	----	-----

5	<p>Effaith ar y Gymuned</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolbwynt y pentref • Dylid defnyddio tir yr ysgol ar gyfer ysgol yn unig • Rhaid i'r ysgol/gymuned wneud mwy i ddenu mwy o ddisgyblion • Defnyddir yr ysgol ar gyfer clybiau /dosbarthiadau nos • Hanfodol i'r gymuned • Yr Awdurdod yn mynd i werthu'r tir ar gyfer tai • Sibrydion fod yr ysgol am fod yn Uned Atgyfeirio Disgyblion 	<p>Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac mae'r Cyngor yn cydnabod lle bynnag y bydd cynnig i gau ysgol y bydd hyn yn effeithio rhywfaint ar y gymuned leol, er mai ychydig o ddefnydd a gaiff ei wneud o'r ysgol gan y gymuned.</p> <p>Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a'r gymuned i liniaru problemau lle bo'n bosibl.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle hyd nes y bydd dyfodol yr ysgol wedi ei benderfynu.</p> <p>Mae materion yn ymwneud â pherchnogaeth Cyfreithiol y Tir yn parhau i gael eu harchwilio, a nodwyd bod rhan o safle Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, yn rhan o Ymddiriedolaeth Bryn Edwin. Yn dibynnu ar ffurfioli materion o'r fath, gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r ased i grŵp cymunedol cyfansoddol os y gall ddangos angen a gallu i reoli'r safle.</p>	31	74%
---	---	--	----	-----

6	<p>Gwariant diweddar ar waith adeiladu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwariant diweddar ar Addasiadau i'r Anabl a chynnal • Gwastraffu arian Trethdalwyr • Wedi prynu eitemau diangen 	<p>Ni all y Cyngor ragweld canlyniad y cynnig ac felly mae'n gweithio ar yr egwyddor o wario arian heddiw ar ddisgyblion heddiw.</p> <p>Caiff yr arolygon o gyflwr yr adeilad eu cynnal gan syrfewyr annibynnol, a gomisiynwyd gan y Cyngor. Maent yn cynnal adolygiad o'r ysgolion bob pum mlynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn cyflwyno blaenoriaethau cynnal i'r Cyngor. Nodwyd bod y gwaith i drwsio'r to yn flaenoriaeth, ac felly cafodd gwaith trwsio brys ei drefnu yn unol â hynny.</p> <p>Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y Ddeddf Cydraddoldeb, ac felly cafodd gwaith ei wneud yn yr ysgol i hwyluso anghenion disgybl.</p>	31	67%
---	---	---	----	-----

7	<p>Heb roi ystyriaeth i ddatblygiadau tai</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tai newydd o bosibl yn yr ardal • Cais i newid defnydd o dir yn yr ardal o dir amaethyddol i dir adeiladu • Datblygiad Croes Atti • Ardal breswyl sy'n ehangu • Mae tai newydd wedi creu teuluoedd iau • Cynnydd disgwylidig yn niferoedd y disgyblion ysgol oherwydd datblygiadau tai • Mae'r awdurdod wedi cymeradwyo datblygiadau tai yn yr ardal 	<p>Mae'r Cyngor wedi ystyried yn llawn capasiti ysgolion yn yr ardal ynghyd â chynnyrch datblygiadau tai posibl yn ei ddogfennau ymgynghori.</p> <p>Caiff data sy'n ymwneud â disgyblion posibl y gellid eu cynhyrchu yn sgil datblygiadau tai newydd eu cyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla cynnyrch tai. Mae'r fformiwla cynnyrch tai yn deillio o waith ymchwil sy'n seiliedig ar ddata'r cyfrifiad cenedlaethol a wnaed gan Gyngor sy'n bartner. Cafodd hwn ei gymhwysu i'r holl geisiadau presennol am ddatblygiadau tai presennol a gymeradwywyd gan yr awdurdod cynllunio.</p> <p>Mae ffigyrau'r cynnyrch tai yn rhoi uchafswm ac nid ydynt yn ystyried dewis y rhieni a/neu symudiad disgyblion h.y. disgyblion yn symud i'r tai newydd ond sydd eisoes yn y system addysg leol.</p> <p>Cyfyngir ar gyflymder datblygiadau tai gan gynlluniau perchnogion/datblygwyr y safle, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill na ellir eu rhagweld.</p> <p>Ym marn y Cyngor mae digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol i gymryd disgyblion o Ysgol Maes Edwin petai'n cau. Gwnaeth Estyn y sylw a ganlyn: <i>'Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno rhesymeg glir dros y buddion disgwylidig arfaethedig o'u cymharu â chadw'r sefyllfa bresennol o ran cyllid, lleoedd gwag, a chysondeb a chynnydd wrth ddysgu'r disgyblion.'</i></p>	31	67%
---	---	---	----	-----

8	<p>Ffederaleiddio'r ysgol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heb gael digon o amser i ystyried Ffederaleiddio • Dim cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint • Ysgolion â diddordeb wedi gwrthod Ffederaleiddio yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Sir y Fflint 	<p>Mae ffederaleiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd drwy broses strwythuredig ffurfiol i rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau yr holl ysgol, staff a disgyblion y ffederasiwn hwnnw.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau newydd yn ymwneud â ffederaleiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Daeth Rheoliadau Ffederaleiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i rym ar 22 Mai 2014 ac maent yn rhoi pwerau i Gyngorau ffederaleiddio ysgolion. (Mae gan lywodraethwyr ysgolion eisoes bwerau i ffederaleiddio yn ôl eu dewis o dan ddarpariaethau a gyflwynwyd yn 2010). Cafodd y pwerau hyn eu cyfuno yn Rheoliadau 2014.</p> <p>Awgrymwyd ffederaleiddio fel dull amgen gan nifer o ymgynghoreion, yn benodol y corff llywodraethu. Nid yw corff llywodraethu Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, wedi dod o hyd i ysgol neu ysgolion partner sy'n fodlon ystyried creu ffederasiwn. Mae'n annhebygol iawn y gellir datblygu ffederasiwn llwyddiannus heb bartner neu bartneriaid. Mae ysgolion cyfagos wedi cadarnhau nad ydynt ac ni fyddant yn cyflwyno cynnig i ffederaleiddio gydag Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint.</p>	28	67%
---	---	--	----	-----

9	<p>Trosglwyddo disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall anghenion ychwanegol y plant 	<p>Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol posibl i hwyluso trosglwyddiad pob disgybl, yn enwedig grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed megis y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Petai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â'r disgyblion, eu rhieni, a'r ysgolion perthnasol i wneud trefniadau trosglwyddo priodol ar gyfer disgyblion er mwyn iddynt ymglyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni).</p> <p>Os bydd gan ddisgyblion anghenion ADY penodol bydd yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn cael ei rhoi ar waith yn eu hamgylchedd dysgu newydd.</p>	28	67%
10	<p>Derbyn Disgyblion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ysgolion cyfagos yn llawn • Diffyg cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint 	<p>Ym marn y Cyngor mae digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol ar gyfer disgyblion o Ysgol Maes Edwin petai'r ysgol yn cau</p> <p>Rhoddyd cyngor a gwybodaeth am dderbyn disgyblion i rieni a oedd yn gwneud cais am yr wybodaeth honno. Roedd unrhyw gyngor a roddwyd yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a pholisi derbyn y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymateb i sawl cais gan rieni am gyngor er mwyn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i rieni. Mewn achosion unigol, ystyriwyd yr holl opsiynau a rhoddyd cyngor priodol. Yn yr achosion hynny lle derbyniwyd ceisiadau, dyrannwyd lleoedd eraill yn unol â'r polisi derbyn.</p> <p>Gweinyddir is-broses dderbyn i gynorthwyo teuluoedd wrth drosglwyddo i ysgolion eraill pe bai'r cabinet yn penderfynu cau'r ysgol.</p>	6	14%

11	<p>Arbedion/Cyllideb/Ariannu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r Cyngor yn gallu rheoli'r gyllideb • Arbedwch yr arian a ddefnyddiwyd ar yr ymgynghoriad i gynghori i gau'r ysgol • Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol ar gyfer ysgolion 	<p>Gall trefniadau annigonol o ran ysgolion arwain at batrymau ariannu annheg ac anghyfartal wrth i rai ysgolion dderbyn cyfran anghyfartal o'r arian ar draul disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal, mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag ysgolion a ystyrir yn ysgolion bach. Dylai unrhyw gynigion yn ymwneud ag ysgolion gyfrannu at sefydlu patrwm tecach o ariannu ysgolion.</p> <p>Yn unol â rheoliadau rheoleiddio mae gan Gyngor Sir y Fflint fformiwla ariannu a dyma'r fethodoleg ar gyfer pennu sut y caiff y gyllideb ei rhannu ar gyfer pob ysgol. Bob blwyddyn, caiff y fformiwla ei adolygu ac mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol, cyflwynir newidiadau i adlewyrchu newidiadau o ran ariannu a pholisi. (Anfonir y fethodoleg fanwl a chyfrannau'r gyllideb i'r holl ysgolion a chyhoeddir crynodeb o'r hyn y cyfeirir ato fel adran 52 y datganiad cyllideb).</p> <p>Mae ysgolion yn derbyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth ac mae hyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion ym mhob ysgol yn mis Medi cyn y flwyddyn ariannol. Defnyddiwyd adran 52 datganiad cyllideb 2015/16 fel sail i'r dadansoddiad.</p>	3	7%
12	<p>Effaith ar Draffig a Chludiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn gallu cerdded gyda'r plant i'r ysgol • Nid yw'r rhieni/gofalwyr yn gyrru • Disgyblion yn cael eu gorfodi i deithio ymhellach i fynd i ysgol sydd yn 2^{il} ddewis iddynt 	<p>O dan y polisi cludiant presennol byddai llai na deg disgybl yn gymwys i gludiant ysgol am ddim ar sail y rhagdybiaeth eu bod yn trosglwyddo i'w hysgol agosaf, Ysgol Owen Jones, Llaneurgain. Byddai hyn ar y sail fod y llwybr teithio i'r ysgol amgen o Fynydd y Fflint yn cael ei ystyried yn rhy beryglus oherwydd ei leoliad gwledig lle nad oes llawer o lwybrau cerdded i mewn ac allan o'r pentref.</p>	2	5%

		<p>Bydd y Cyngor yn darparu cludiant yn unol â'i Bolisi Cludiant.</p> <p>http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/SchoolTransport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf Yn gryno, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol, lle bo plentyn yn derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf.</p> <p>Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion oedran ysgol statudol :-</p> <ul style="list-style-type: none">• os yw'r llwybr teithio i'r ysgol yn cael ei ystyried yn beryglus gan y Cyngor;• os yw cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel arfer am resymau meddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y polisi hwn• os oes angen cludiant ar blentyn am resymau meddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus ar gael; darperir Cludiant am ddim hefyd i ddisgyblion oedran statudol:• os yw'r rhieni'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith ac mae'r cartref dros 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;• i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn ôl y meini prawf a nodwyd uchod;• i'r ysgol agosaf a gynorthwyir yn wirfoddol ble mae derbyn i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Ymgynghorir ag ysgolion unigol i gadarnhau'r meini prawf derbyn yn ôl pa rai y derbynnir disgyblion. Gellir gofyn am dystiolaeth o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedyddio neu lythyr gan offeiriad.		
--	--	---	--	--

Casgliad

Fel yr amlinellwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, o 31^{ain} Awst 2016 a throsglwyddo disgyblion i ysgolion gerllaw, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol. Anfonir yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn, ynghyd â chopi o'r holl Wrthwynebiadau, copi o'r ddogfen ymgynghori; copi o'r adroddiad ymgynghori; a chopi o'r hysbysiad cyhoeddus at yr Aelodau Cabinet i wneud penderfyniad.